# ‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Hawliau Dynol

**TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

## 1. ‘Estroniaid Gelyniaethus’: dosbarthu a chaethiwo

Ar ôl i'r rhyfel ddechrau ym mis Medi 1939, daeth yr holl Almaenwyr ac Awstriaid ym Mhrydain i fod yn ‘estroniaid gelyniaethus’ a rhaid oedd iddynt gofrestru gyda'r heddlu. Sefydlodd y Swyddfa Gartref dribiwnlysoedd caethiwo ar hyd a lled y wlad, a hynny er mwyn archwilio pob ‘estron gelyniaethus’ dros 16 oed a'i ddosbarthu naill ai'n Gategori A, B neu C.

- Categori A, i'w gaethiwo.
- Categori B, i'w eithrio rhag cael ei gaethiwo ond i fod yn destun cyfyngiadau a orchmynnid dan y Gorchymyn Arbennig.
- Categori C, i'w eithrio rhag cael ei gaethiwo a rhag y cyfyngiadau.


Er bod y mwyafrif yn parhau'n rhydd, tynhaodd y cyfyngiadau yn haf 1940 yn sgil y risg o ymosodiad gan yr Almaen, a chaethiwyd degau o filoedd ni waeth beth oedd eu dosbarthiad.

Roedd y cynnydd yn niferoedd y rheiny a gaethiwyd wedi disbyddu capasiti'r safleoedd a oedd ar gael ac, er i fwyafrif y ffoaduriaid gael eu caethiwo mewn gwersylloedd ym Mhrydain, cafodd rhai eu hallgludo i wledydd eraill, yn fwyaf nodedig i Ganada ac Awstralia. Yn ystod y rhyfel, roedd y rhain yn fordeithiau peryglus iawn. Cafodd un llong (yr SS Arandora Star) a oedd yn cludo 1,600 o bobl, gyda rhai cannoedd o'r rheiny'n ffoaduriaid o'r Almaen, ei tharo gan dorpido o long danfor Almaenaidd ar ei ffordd i Ganada ym mis Gorffennaf 1940. Boddodd dros 800 o bobl.

## 2. Gweithgareddau

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Darllenwch y cerdyn Estroniaid Gelyniaethus a Charcharorion ar gyfer Heinrich David Pinkus:


Reclassify 'C'. Return and Release auth.

MALE ENEMY ALIEN—EXEMPTION FROM INTERNMENT—REFUGEE

(1) Surname (block capitals) PINKUS INTERNED (B)

Forenames Heinrich David. Released on loading ... 28.11.41

Alias Heinrich David Israel PINKUS.

(2) Date and place of birth 16 October, 1922, in Berlin.

(3) Nationality German.

(4) Police Regn. Cert. No. 731872 Home Office reference if known P.9261.

Special Procedure Card Number if known

(5) Address ~~prior to Internment~~ 5 Park Grove, Cardiff.

(6) Normal occupation Schoolboy.

(7) Present Occupation Trainee employment (Tool maker)

(8) Name and address of employer Aero Zip Fasteners, Ltd, Treforest, Glam.

(9) Decision of Tribunal Exempted from internment Date 7. November, 1939.

(10) Whether exempted from Articles 6(A) and 9(A) (Yes or No) No.

(11) Whether desires to be repatriated (Yes or No) No.

[7535] 28717/835 25m 9/39 G & S 704

B.B.W. 25/9/41

AGE GR. 1/22

OCC. GR. D1

EX. 6A and 9A NO

[Over]

[Cerdyn Estroniaid Gelyniaethus a Charcharorion ar gyfer Heinrich David Pinkus.](#)
*Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, Lloegr, HO 396 WW2 Internees (Aliens) Index Cards 1939-1947, Cyfeiriad yr Archif: HO 396/135.*

*Delwedd: Casgliad y Werin Cymru.*
*Dogfen wreiddiol: ©Hawlfraint y Goron. Atgynhyrchwyd y ddelwedd trwy garedigrwydd yr Archifau Gwladol, Llundain, Lloegr.*

Nodyn am y cerdyn:

Ym mis Awst 1938, rhaid oedd i bob Iddew ag enw 'an-Iddewig' yn yr Almaen Natsïaidd gael marc ar ei basbort a'i gardiau adnabod eraill yn nodi enw ychwanegol: 'Israel' yn achos dynion a 'Sara' yn achos menywod.

**b)** Trafodwch â'r dosbarth cyfan:

- Pa wybodaeth y mae'r cerdyn yn ei darparu am Pinkus?
- Pam y mae enw canol Pinkus yn cael ei restru fel 'Israel'?
- Beth yw ystyr "Reclassify C"?
- Pam y cafodd cynifer o bobl a eithriwyd yn wreiddiol eu caethiwo yn y pen draw?

**GWEITHGAREDD 2**

**a)** Darllenwch fywgraffiadau Heinrich Pinkus a Walter Finkler, ac yna gwrandewch ar y clipiau sain o gyfweliadau hanes llafar â Gaby Koppel ac Evelyn Ruth Kaye. Yn y clipiau, mae Gaby ac Evelyn yn siarad am gaethiwed eu tadau.

**Bywgraffiad Heinrich Pinkus**

Ganed **Heinrich Pinkus** ym Merlin yn 1922. Roedd ei lystad, Joachim Koppel, yn ddyn busnes a ffodd i Brydain yn 1938 ac a sefydlodd ffatri ar Ystad Fasnachu Trefforest ger Pontypridd. Dilynodd Heinrich a'i chwaer iau, Ilse, yn fuan wedyn, gan aros gyda gweddill y teulu yng Nghaerdydd. Ym mis Mai 1940, cafodd Heinrich ac Ilse ill dau eu caethiwo fel estroniaid gelyniaethus, a chafodd Heinrich ei allgludo i Ganada. Rhyddhawyd Ilse ym mis Chwefror 1941, a dychwelodd Heinrich i'r DU, gan gael ei ryddhau ym mis Tachwedd 1941. Ar ôl y rhyfel, newidiodd Heinrich ei enw i Henry Koppel, a daeth yn brif beiriannydd ar gyfer Aero Zipp, sef busnes y teulu.

Magwyd merch Henry Koppel, Gaby Koppel, yng Nghaerdydd, ac mae bellach yn newyddiadurwraig yn Llundain.

**Trawsgrifiad o hanes llafar:**

Gaby Koppel yn siarad am gaethiwed ei thad yng Ngwersyll Hutchinson ar Ynys Manaw, ac am ei allgludiad i Ganada.

*Roedd fy nhad – rhaid ei fod ymhlith y rhai ieuengaf, oherwydd roedd yn 17. Mae llawer o bobl wedi ysgrifennu am galedi caethiwed, ond roedd gan fy nhad straeon doniol i'w hadrodd ac roedd yn ystyried y cyfan yn dipyn o antur, efallai oherwydd ei oedran. Roedd – un peth a ddywedodd, roedd yn oer iawn. Yng Nghanada, felly, aeth – yn gyntaf cafodd ei gaethiwo, cafodd ei anfon i Huyton yn Lerpwl, a oedd yn wersyll aros, yna cafodd ei anfon i Ynys Manaw, ac arferai adrodd yr holl straeon hyn. Hynny yw, fe'u clywais yn ffres ganddo fe, heb unrhyw synnwyr o* cliché*, am y modd yr oedd Ynys Manaw fel prifysgol iddo; dysgodd gymaint am gerddoriaeth, y Pedwarawd Amadeus, clywodd e nhw'n chwarae, dysgodd chwarae* bridge*, a oedd o ddiddordeb mawr iddo ar hyd ei oes, a dysgodd bob math o bethau; mewn gwirionedd – roedd yn addysg wirioneddol. Ac wrth gwrs, roedd wedi'i amgylchynu â phobl Iddewig Ganol Ewrop, sef yr amgylchfyd yr oedd yn gyfarwydd ag ef, felly roedd yna ryw fath o gysur ...*

*A byddai, byddai'n dweud straeon am y, y bwyd, oherwydd roedd gennych y dognau, wyddoch chi, a oedd yn dda i ddim yng Nghanada ond, wyddoch chi, roedd gennych chi'r holl gogyddion hyn o Fienna, a bydden nhw'n cymryd y dognau i gyd ac yn – pob math o gig ofnadwy, ansawdd y cig, a oedd yn cael ei anfon atynt – ei droi'n salami ac yn ei werthu 'nôl i'r Canadiaid am elw. Ond un peth a oedd yn eisiau, mae'n rhaid, felly mae gen i fy holl – nid pob un, ond mae gen i tua 15 i 20 o lythyrau a ysgrifennodd fy nhad a'u hanfon adref o'r gwersyll caethiwo, a hynny oedd, "Allwch chi anfon ..." – hynny yw, doedd e ddim yn hynod o, fydde fe ddim yn dweud llawer, ysgrifen eithaf mawr, papur eithaf bach – "Allwch chi anfon trywsus cynnes a siocled."*

Ynglŷn â Gwersyll Hutchinson:

Daeth Gwersyll Hutchinson yn adnabyddus fel 'Gwersyll yr Artistiaid' o ganlyniad i'r nifer mawr o ddeallusion ac artistiaid a gafodd eu caethiwo yno. Byddai'r carcharorion yn cynnal perfformiadau cerddorol a darlithoedd, ac yn creu gweithiau celf yn ystod eu cyfnod yn y gwersyll. Byddai rhai cerflunwyr yn creu cerfluniau gan ddefnyddio uwd am nad oedd yna unrhyw ddeunydd arall ar gael.

## Bywgraffiad Walter Finkler

Cafodd **Walter Finkel**, cerddor a newyddiadurwr, ei arestio a'i anfon i wersyll crynhoi Dachau ar ôl *Kristallnacht*, ond cafodd ei ryddhau a llwyddodd i ffoi i Brydain gan ddefnyddio fisa ffug. Pan gyrhaeddodd, arhosodd am gyfnod byr yng Ngwersyll Kitchener, sef gwersyll croeso ar gyfer ffoaduriaid Iddewig yng Nghaint. Yn 1940, cafodd ei arestio a'i gaethiwo ar Ynys Manaw.

Daeth merch Walter, Evelyn Ruth Kaye, i Brydain o Fienna yn Awstria ar y *Kindertransport*. Aeth i'r ysgol yn Llanfair-ym-Muallt yng Nghanolbarth Cymru yn ystod y rhyfel. Roedd ei mam hefyd wedi ffoi gan ddefnyddio fisa ffug, a bu'n gweithio yn Llundain ac ar Ynys Wyth. Daeth y teulu at ei gilydd yn Lloegr wedi i'r rhyfel ddod i ben.

**Trawsgrifiad o hanes llafar:**

Evelyn Ruth Kaye yn siarad am ei thad a fu bron â mynd ar long llawn ffoaduriaid a suddwyd ar ei ffordd i Ganada (yn ei thystiolaeth, mae'n cyfeirio ar gam at Ganada fel Awstralia).

*O, cawson ni un foment wael. Wyddoch chi eu bod wedi anfon rhai pobl o Ynys Manaw i Awstralia, a chawson ni lythyr oddi wrth fy nhad i ddweud ei fod yn cael ei anfon i Awstralia, a chafodd y llong ei suddo, a dim ond deg o bobl a gafodd eu hachub, a chyhoeddodd y BBC yr enwau, ac roedd enw fy nhad yn eu plith. A buon ni'n aros am tua phythefnos, ac yna roedd yn cael ysgrifennu unwaith y mis yn unig ac ysgrifennodd ei fod wedi mynd ar fwrdd y llong, ond, am ei fod yn anghofus, roedd wedi anghofio ei basbort, felly cafodd ei daflu allan.*

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn parau neu grwpiau bach:

- Sut y gallai'r carcharorion a oedd yn cael eu hallgludo fod wedi teimlo? Beth am aelodau'r teulu a gafodd eu gadael ar ôl?
- Sut y byddech chi wedi ceisio pasio'r amser mewn gwersyll caethiwo?
- Beth y gallech fod wedi gwneud cais amdano gan anwylyn tra eich bod yn gaeth?

**c)** Cyflwynwch y prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan.

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Yn unigol, ystyriwch y geiriau a allai ddisgrifio teimladau'r carcharorion a'u teuluoedd.

**b)** Fel dosbarth, crëwch gwmwl geiriau (er enghraifft ar fwrdd neu ddarn o bapur) ac ychwanegwch eich gair(geiriau).